CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 04 Ebrill Cofnodion

CYNGOR CYMUNED BETWS

Fe gynnal cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 13eg o Ebrill 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Anne Sizmur (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr, Loreen Lewis, Peter Cowell, Graham Vaughan, Menna Roberts, Annette Price, Carwyn James, June Gunter a Delyth Richards.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwr E Audrey Jones, Keith Rees a Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHELIR A'R Y 9fed O FAWRTH 2005.
Roedd gan Cynghorwr Anne Sizmur y newidiadau canlynol:-
2.10 Eisteddfod Genedlaethol.
2.10 Cyngor Sir Caerfyrddin yn tueddu'n ffafriol.
2.11 Cymuned Betws yn cael beth sydd yn gyfreithlon i nhw.
Roedd gan Cynghorwr Peter Cowell y newidiadau canlynol:-
7 ysgrifennu yn nol iddo i weld os mae'r tir ar gael i Fetws ddefnyddio.
PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn cywiro'r cofnodion.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Awdurdod Heddlu Dyfed Powys - Gorsaf Heddlu Rhydaman.
Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ateb un nol wrth Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.
NODWYD: Y pwynt uchod

2.2 Warden y Cw^n.
Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell bod rhai pobl yn defnyddio'r parc fel hwylustod toiled i'w cw^n. Mae warden y cw^n wedi bod i ymweld ar parc, ond yn anfodus nid yw nhw wedi dal unrhyw un.
NODWYD: Y pwynt uchod

2.3 Safle Gwe Cymunedol.
Roedd Cynghorwr Menna Roberts wedi adrodd ei bod hi'n casglu manylion o Cymdeithasau yn Betws e.e enw, rhif ffon etc. Mae'r cyfarfod nesaf ar y 16eg o Fai gyda Emma Jewell ac mae eisiau cael y wybodaeth erbyn hynny.
Rhoddwyd diolch i Cynghorwr Menna Roberts a Cynghorwr Peter Cowell gan Cynghorwr Anne Sizmur am y gwaith mae nhw wedi gwneud.

Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi gofyn i'r Clerc gysyllti gyda Emma Jewell ynglin a dodi'r cofnodion o'r cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Betws ar y we. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cyswllt gyda Emma Jewell.

2.4 Clwb Criced Betws.

Gofynnodd Cynghorwr Arnallt James os oedd y batiau criced wedi cael ei archebu eto?
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi ateb, dim eto.
Dywedodd Cynghorwr Delyth Richard fod yr ardal concrid lle mae'r Clwb Criced yn ymarfer ar yn anwastad ac yn beryglus, a gofynnodd os oedd gan y Clwb Criced matiau criced? Mae Cynghorwr Anne Sizmur yn mynd i siarad gyda Rhidian.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.5 Materion Cynllunio.
Darllenodd y Clerc ateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd dau awgrym wedi cael ei wneud Coedtir a Llwybr Y Wig. Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu i Cyngor Sir Caerfyrddin yn awgrymu'r uchod.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.6 Trefn Cadwraeth.
Darllenodd y Clerc ateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod yn mynd i siarad gyda Locksmith i weld os gall ef gael yr wybodaeth sydd eisiau.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Adran y Parc ar ôl i'r wybodaeth cael ei dderbyn.

Awgrymodd Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn cysylltu gyda Ymddiried Cenedlaethol i weld os oes diddordeb ganddo nhw ynglin a Trefn Cadwraeth.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Ymddiried Cenedlaethol.

Gofynnodd Cynghorwr Menna Roberts os oedd unrhyw un a lluniau o'r bont, i ddodi ar safle gwe. Roedd hi hefyd wedi gofyn i'r Cynghorwyr os oedd lluniau yn perthyn i Betws gyda nhw, i ddodi ar y we hefyd.

2.7 Llwybrau Troed.
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi rhoi adroddiad manwl ynglin a llwybr troed.
Ø Mae arwyddion ffordd ac arddull wedi cael i symud wrth 3/5 a 3/7, problem dal i fynd ymlaen, oherwydd mae'r ffarmwr yn tynnu nhw lawr. Cadarnhaodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod ef a Roger yn mynd i ddodi nhw yn nol i fynnu, Mae'r Swyddog Hawliau Ffordd yn mynd i ysgrifenni i'r ddau bobl sy'n drysu.
Ø 3/10 a 3/7 yn fwdlyd, mae'na ben fwyta wrth ymyl y llwybr; Mae'r Swyddog Hawliau Ffordd yn mynd i ysgrifenni i'r perchennog i weld os gall y pen fwyta cael ei symud.
Ø Llwybr 68/11, mae'r llwybr yn mynd i gael i concrid, esboniodd Cynghorwr Peter Cowell fod Mr Jones yn dadlau gyda Cyngor Sir Caerfyrddin.
NODWYD: Y pwyntiau uchod.

Dywedodd Cynghorwr Arnallt James fod yna llawer iawn o fes cw^n ar lwybr troed 68/11.
Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Warden Y Cymuned.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn cysylltu gyda Warden Y Cymuned

2.8 Betws Yn Eu Blodau.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau bod Cynghorwr Graham Vaughan wedi rhoi cysylltiad iddi am farnwr posibl - Mrs Gloria Davies.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.9 Adwy o Rheolaeth Cynllunio - Tipio heb awdurdod.
Roedd Y Clerc wedi cadarnhau ei bod hi ddim wedi cael ymateb ynglin ai llythyr.
Penderfynwyd fod y Clerc yn gwneud ymholiadau.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i'r adran cynllunio - adwy o'r rheolaeth cynllunio.

2.10 Prydau o fwyd ar Olwynion.
Roedd Cynghorwr Arnallt James wedi dweud bod nhw heb ailosod y ddau wirfoddolwr.

NODWYD: y pwynt uchod.

2.11Prosiectau'r Pentref.
Nid yw Cynghorwr Peter Cowell wedi cael ateb wrth Rhys Davies eto.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.12 Rhestr Cyffyrddiad.
Roedd Y Clerc wedi dweud nid oes gan Cyngor Sir Caerfyrddin rhestr cyffyrddiad ar hyn o bryd, ond roedd y Clerc wedi trefnu cael rhestr o'r gwasanaethau darpar sydd gan y sir a hefyd rhifau ffon, bydd hi cadw'r rhestr.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Ymgyrch i Lanhau Sir Gaerfyrddin.
Penderfynwyd i lanhau llwybr troed Coedcae - 3.1 ar ddydd Iau y 12fed o Fai.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn llanw'r ffurflen ac yn dychwelyd i Cyngor Sir Caerfyrddin.

3.2 NACRO Cymru.
Penderfynwyd bod y Clerc yn ceisio archeb copïau pellach o'r Llyfryn Lleihau trosedd ac anhrefn - Canllawiau ymarferol ar gyfer cynghorau tref a chymuned i rhoi i bob Cynghorwr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ceisio archeb copïau pellach.

3.3 Cynllunio - Cyngor Sir Caerfyrddin.
Darllenodd y Clerc ateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin, adran cynllunio yngly^n â gohebu ac ymgynghori a chyngor tref a sir. Cytunwyd bod y Clerc yn copïo'r cytundeb i'r Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.4 Fforwm Blynyddol Partneriaeth Sir Caerfyrddin 2005.
Eglurodd Cynghorwr Anne Sizmur bod y Clerc wedi cadw dau lle ar y fforwm uchod, oherwydd bod yna lle prin i barcio.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.5 Cyngor Sir Caerfyrddin.
Darllenodd Y Clerc llythyr roedd hi wedi derbyn ynglin a safle yn Heol Maescware, Betws, yn hwnnw roedd yr enw Golwg Y Mynydd wedi cael i dderbyn am y llwyfan hwyrach o'r datblygiad.
Awgrymodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiad i weld pan fod eisiau i enwau y strydoedd cael ei gyfieithu.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu i Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn pan fod eisiau cyfieithu Woodlands Lane i Gymraeg oherwydd mae Golwg Y Mynydd wedi cael ei dderbyn fel y cyfeiriad post ac nid wedi cael i gyfieithu mewn i Saesneg.

3.6 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi eu cydnabod ac mae'r cynnwys wedi eu nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
1.1 Cyfyngiadau ar Fasnachu ar y Stryd yn Sir Gaerfyrddin.
1.2 Adran Cynllunio - Amrywiad o gyflwr 3 o caniatad cynllunio C6/120.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru
2.1 Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) - Drafft, rhoddwyd i Gynghorwr June Gunter.
2.2 Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2003-2004
3. Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, hysbysiad o gyfarfod rhoddwyd i Gynghorwr Graham Vaughan.
4. Diogelwch Cymunedol - Strategaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin 2005-2008.
5. Helpu'r Oedrannus, hysbysiad o gyfarfod.
6. Pentref Flwyddyn Calor.

4. MATERION CYNLLUNIO.

Cytunwyd y ceisiai isod gan Cyngor Cymuned Betws:-
E/09753 - Ymestyniad dau lawr
Ffarm Llethrlan Fawr
D R Griffiths

E/09749 - Gwelliant i aprofi cynllunio cais rhif E/07422
Tir tu ôl i 55-59 Heol Maescware, Betws
Tau Woodstock

E/09647 - Lon newydd i Mynediad agos I plot 47 Heol Y Cyrnol, Betws
Plot agos i 47 Heol Y Cyrnol
D M Davies

Cytunwyd y ceisiai isod gan y Cyngor Sir:-
E/09155 - Awgrymu tröedigaeth am adeilad allan
Neuadd Maescware, Rhydaman
Jess Bower

E/08784 - Ail safle plot 17 wrth aprofi ei le
Plot 17 Parc Nant Y Felin
Tai Ballyntyne

Mae'r cais isod yn cael i drafod gan Cyngor Cymuned Betws:-
E/09584 - Ad-Datblygiad o Gwaith Glo blaenorol Betws yn cael ei ddefnyddio o gymysg Gwaith a Preswyl
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi rhoi adroddiad manwl i'r Cynghorwyr ynglin ar gais cynllunio. Esboniodd efallai fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i nôl cynghorwyr i fewn i help nhw, oherwydd mae hyn yn rhi cymhleth a mawr i'r adran cynllunio. Roedd y cais wreiddiol am dai wedi codi o 150 i 260. Penderfynodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu i Cyngor Sir Caerfyrddin, yn dweud fod y Cynghorwyr yn pryderu am y codiad yn ddatblygiadau newydd yn Betws. Gofynnodd Cynghorwr Annette Price pa ganran o dai newydd sydd ar gael i brynwyr amser cyntaf?
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi dweud wrth y Cynghorwyr fod llythyr wedi cael ei ddanfon i Martin Cook trwy T.R.J. oherwydd dim ond y cyfeiriad hyn sydd gyda nhw, nid oes ateb wedi cael i dderbyn. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell fod Cynghorwr Anne Sizmur wedi siarad gyda Dave Gilbert ac nid yw ef hefyd wedi cael ateb wrth Martin Cook. Mae Dave Gilbert yn mynd i weld os mae Martin Cook mewn gwirionedd wedi derbyn y llythyr. Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau os na fydd hi'n clywed wrth Dave Gilbert erbyn canol wythnos nesaf, bydd hi'n ffonio fe.

Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi cadarnhau fod Eifion Bowen wedi dweud ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud heb cysyllti gyda Cyngor Cymuned Betws yn gyntaf.

Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell y lleiafrif mae nhw yn gobeithio cael allan o hyn yw neuadd i'r pentref.
Dywedodd Cynghorwr Anne Sizmur bod y datblygydd yn wreiddiol wedi dweud bod 44 o erw i'r Cymuned ddefnyddio. Gofynnod Cynghorwr Delyth Richards os oedd y datblygydd wedi rhoi ei addo yn ysgrifenedig. Atebodd Cynghorwr Anne Sizmur na.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cynghorwr Sir John D Evans, wedi danfon llythyr yn dweud ei fod ef wedi cael cyngor a dele canran o dir cael i rhoi i'r ochr i'r Cymuned ddefnyddio.

Gofynnod Cynghorwr Anne Sizmur os oedd yn angenrheidiol cael cyfarfod arbennig.

Cytunodd y Cynghorwyr. Nid yw'r Cynghorwyr yn hollol hysbys ar safle, a awgrymodd fod ymweliad i'r safle yn ddefnyddiol. Roedd y Cynghorwyr wedi cytuno fydd hwn yn fuddiol. Awgrymodd Cynghorwr Anne Sizmur efallai fydd cyfarfod cyn yr ymweliad i'r safle yn fuddiol. Roedd y Cynghorwyr hefyd wedi cytuno a hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn trefnu ymweliad i'r safle mor gynted â phosib.

5. CYFRIFON.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin - Golau i'r Llwybrau Troed £231.75
2. Un Llais i Gymru - Aelodaeth £156.00
3. HOWLTA - Aelodaeth £8.00
4. Cyngor Sir Caerfyrddin - cost yr Etholiad £877.64
5. Morgan a Morgan - stationery i'r Clerc £25.79
6. Lwfans Cadeirydd (3ydd Rhan dal) £100.00

CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Dywedodd bod chwe throsedd yw nodi am fis Fawrth yn Betws, wedi ei wneud o'r canlynol:-
niwed troseddol i gerbyd modur, lladrad UMV, eiddo cyffuriau, ymosodiad cytir, ymosodiad ar swyddog yr Heddlu a lladrad o giosg teliffon. Mas o'r chwech mae tri wedi cael i ddatgelu.

Dywedodd PC Jones fod 253 o bobl ieuenctid wedi bod yn bresennol yn y Disco Glas diwethaf ym mis Mawrth.

Hefyd dywedodd PC Jones fod y lladrad roedd wedi cymryd rhan yn Ionawr ar dy^ yn Heol Pentwyn fod y gwryw, wedi cael tair blynedd yn y cadwraeth.

Gofynnodd Cynghorwr Anne Sizmur os oedd PC Jones wedi bod i ymweld ar ardal tu ôl i'r Clwb Rygbi? Dywedodd PC Jones ei fod wedi bod i ymweld ar ardal ond nid oedd dim byd yn mynd ymlaen. Dywedodd Cynghorwr Graham Vaughan fod y sied wedi cael i osod ar dan wythnos i ddydd Gwener diwethaf ac roedd rhaid galw'r Frigâd Dan. Awgrymodd fod PC Jones yn ymweld ar Clwb.

Dywedodd PC Jones fod y fan camera cyflymder wedi cael ei osod ar bwys Heol Maescware, ond yn anffodus nid yw nhw wedi dal unrhyw un.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIADAU.
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi rhoi adroddiad manwl yngly^n â Gwaith Glo rhif 2 Betws. Esboniodd fod yna ddrifft ar y tir, sydd ddim wedi cael i selio ac mae'n beryglus i'r Cyhoedd, oherwydd mae'r drifft yn llawn nwy. Cytunodd y Cynghorwyr os oedd eisiau galw'r Diogelwch a Iechyd os oes rhaid.

8. CRONFEYDD I'R PENTREF WRTH DATBLYGYDD.
Trafododd Y Cynghorwyr yr uchod yn fanwl. Cytunodd y canlynol:-
Ø Canolfan Pwrpas Cymunedol/Neuadd i'r Pentref.
Ø Tai fforddi i brynwyr amser cyntaf.
Ø Safon i fyny o'r parc y plant/ llawr pwrpas cyfan i'r parc.

Roedd Cynghorwr Annette Price wedi dweud wrth y Cynghorwyr fod y bont yn y parc yn rhydu i ffwrdd.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu i Cyngor Sir Caerfyrddin.

9. DIWEDD AMSER PROFIANNAETH PRAWF Y CLERC.

Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi dweud wrth y Cynghorwyr fod amser profiannaeth prawf y Clerc yn dod i ben ar ddiwedd mis Ebrill. Cytunodd y Cynghorwyr bod nhw'n hapus gyda gwaith y Clerc ac roedden nhw'n hapus i gynnig y swydd ar sail barhaol. Diolchwyd y Clerc y Cyngor am eu cefnogaeth, ac awgrymodd y bod yn arlunio Cytundeb Cyflogaeth erbyn y cyfarfod nesaf.
NODWYD: y pwynt uchod.

10. CYFARFOD BLYNYDDOL.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau bod y cyfarfod blynyddol Cyngor Cymuned Betws yn cymryd lle ar y 11eg o Fai 2005. Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi ymddiheuro o flaen llaw ei fod ddim yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd bydd ar ei wyliau. Roedd Cynghorwr Anne Sizmur hefyd wedi cadarnhau ei bod hi wedi ymddeol fel ymddiriedolwr i'r Canolfan Teulu.
NODWYD: y pwynt uchod.

11. UNRHYW FATER ARALL.
Ymddiheurodd Cynghorwr Delyth Richard ei bod hi ddim yn gallu cymeryd rhan yn y Cerddediad Gwanwyn ar y 14eg o Ebrill. Mae'r cerddediad yn dechrau o Parc Betws am 6.30.
NODWYD: y pwynt uchod.